

# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI

## LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*  
**Bethan Roberts**  
Rhif Ffôn: 01248 602131  
Ebost: [CyngorLlandygai@ogwen.org](mailto:CyngorLlandygai@ogwen.org)

26 Stryd Fawr  
Bethesda  
Gwynedd  
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol (Cyfarfod Rhithiol) o'r Cyngor a gynhaliwyd ar  
**Nos Iau 21 Gorffennaf 2022 am 18.30**  
*cynhaliwyd y cyfarfod drwy ddefnyddio Zoom*

### **PRESENNOL:**

Y Cynghorydd Dafydd Owen

Y Cynghorydd Huw Jones

Y Cynghorydd Mair Owen Pierce

Y Cynghorydd Lowri Jones

Y Cynghorydd Anwen Jones

Y Cynghorydd Dafydd Roberts

Y Cynghorydd Sian Beidas

Y Cyng. David H Roberts

### **Cynghorydd Sir**

Cyng. Beca Roberts

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod rhithiol gan y Cadeirydd, Cyng. Mair Owen Pierce.  
**Ymddiheuriadau** gan y Cyng. Mary Hayes, Iwan Hywel a David H Roberts.

2. **Trafodaeth gyda Cyng. Beca Roberts, Cynghorydd Sir**

Cyflwynodd y Cyng. Beca Roberts ei hun i'r aelodau, a chafwyd trafodaeth defnyddiol ynglyn a'i pherthynas gyda'r Cyngor Cymuned. Penderfynwyd y bydd y Cynghorydd yn trio mynychu cyn gymaint o gyfarfodydd o'r Cyngor a phosib, ac y Clerc a hithau i weithio yn agos gyda'i gilydd ar materion sydd yn codi. Diolchwyd i Beca am fynychu'r cyfarfod.

3. **Cofnodion**

**Penderfynwyd:** Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2022.

4. **Materion yn codi o'r cofnodion**

4.1 **Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig** – Cynigwyd dyddiadau ym mis Mehefin gan Iwan ap Trefor, ond oherwydd gwyliau ayyb, nid oedd yn bosib cyfarfod ar y dyddiadau hyn. Nid yw Iwan ap Trefor wedi cynnig dyddiadau newydd, y Clerc wedi holi mwy nag unwaith. Y Clerc wedi danfon y wybodaeth i Cyng. Beca Roberts, a phenderfynwyd y bydd hi yn cysylltu wythnos nesaf i holi am dyddiadau cyfarfod.

4.2 **Llecyn Tir, Bont Tŵr** –Nodwyd fod Chris Burgess, Breedon wedi gofyn i cwmni Savills cysylltu a'r Clerc ynglyn a hyn, y Clerc wedi danfon rhifau ffôn ond heb dderbyn unrhyw galwad hyd yn hyn.

- 4.3 Llwybr Rhif 3** – Nodwyd fod y Swyddog Llwybrau wedi archwilio'r llwybr peth amser yn ôl. Nodwyd eu bod yn disgwyl am arweiniad ar rhai o'r problemau sydd yn bodoli yma. Y Clerc i holi am ddiweddariad erbyn cyfarfod mis Medi.
- 4.4 Arhosfan bws ger Pant yr Ardd** – Y Clerc wedi gwneud cais am linellau melyn eraill yr ochr arall, ond heb dderbyn ymateb. Mae hwn yn un o'r eitemau sydd angen ei drafod gyda Iwan ap Trefor.
- 4.5 Drychau traffig** - Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd os oes modd gael drych traffig ar pen lôn Llwybr Main o gyfeiriad Lôn y Grug, dim ymateb hyd yn hyn. Y Clerc i holi unwaith eto, gan copio'r Cyng. Beca Roberts yn yr ebost. Mae hwn hefyd yn un o'r eitemau sydd angen ei drafod gyda Iwan ap Trefor.
- 4.6 Lôn y Wern, Tregarth** – Nodwyd y Cyng. Dafydd Roberts fod angen mwy o waith ar y ffordd rhwng Eglwys Gelli a Cororion. Y Clerc wedi holi Iwan ap trefor, ond dim ymateb hyd yn hyn.
- 4.7 Diffyg ymateb Cyngor Gwynedd** – Adroddwyd fod y Clerc wedi danfon tystiolaeth at y Prif Weithredwr. Dim ymateb hyd yn hyn.
- 4.8 Mainc Pentref Llandygai** – Nodwyd fod y Cyngor wedi gael caniatad gan Gyngor Gwynedd i osod mainc newydd ym Mhentref Llandygai, ar yr amod ein bod yn ariannu a trefnu a cymryd cyfrifoldeb amdani. Y Clerc i edrych am brisiau.
- 4.9 Adra – Ymateb i llythyr Datblygiad Cae Gors** – y Cyngor. Lowri Jones ac Iwan Hywel i danfon cynnwys at y Clerc, er mwyn i'r Clerc lunio llythyr ymateb. Nodwyd fod y Clerc wedi danfon llythyr at y Gweinidog Tai, Julie James AS a Sian Gwenllian AS i godi pwysigrwydd defnyddio deunyddiau lleol a pwysigrwydd lleihau ôl troed carbon, dim ymateb hyd yn hyn.
- 4.10 Prydles Ganolfan Tregarth** – Nodwyd fod Cyng. Dafydd Owen wedi cychylltu gyda'r adran Eiddo a'r Prif Weithredwr i geisio mynd y wraidd y mater hwn, dim synnwyr hyd yn hyn.
- 4.11 Canolfan Tregarth** –y Clerc i drefnu cyfarfod ar y safle gyda adran eiddo Cyngor Gwynedd i drafod y posibilrwydd o osod ffens ogwmpas yr Ganolfan – dim ymateb hyd yn hyn.

## 5. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Gorffennaf 2022'

**Cyflwynwyd:** Rhodd at Gronfa Dyffryn Ogwen Eisteddfod Llyn ac Eifionydd – Penderfynwyd disgwyl tan diwedd y flwyddyn cyn penderfynu ar y swm.

**Cyflwynwyd:** Gweithdai Ardal Ni 2035 – Penderfynwyd y bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cynrychioli'r Cyngor.

**Cyflwynwyd:** Paentio Lloches Bws Mynydd Llandygai – Penderfynwyd y Cyngor eu bod yn cefnogi mewn egwyddor, ond bod angen i'r unigolyn cysylltu gyda'r grwp sydd yn arwain ar y llyfrgell.

**Cyflwynwyd:** Yngynghori ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd – Penderfynwyd y bydd y Clerc a'r Cadeirydd yn ymateb ar ran y Cyngor.

## 6. Mabwysiadwy dogfennau

**6.1 Rheolau Sefydlog** – Penderfynwyd mabwysiadwy'r dogfen hwn.

**6.2 Rheoliadau Ariannol** - Penderfynwyd mabwysiadwy'r dogfen hwn.

## 7. Seddi gwag

Adroddwyd fod y Clerc wedi hysbysebu'r 3 sedd wag, ond dim diddordeb hyd yn hyn. Y Clerc i ail hysbysebu'r seddi.

## 8. Adroddiad Partneriaeth Ogwen

Nodwyd y Clerc fod y Barteriaeth wedi tyfu yn aruthrol yn ddiweddar a fod nifer o brosiectau newydd.

## 9. Gwaith y Mis

**Graffiti Lloches Bws Bro Syr Ifor** – Nodwyd y Cyng. Dafydd Owen fod yno graffiti ar y lloches bws – y Clerc i holi Gofalwr Eiddo'r Bartneriaeth i glanhau.

**Datblygiad Cae'r Gors** – Penderfynwyd bydd y Clerc yn cysylltu ag Adra i holi os ydynt yn bwriadu cynnal diwrnod agored i drafod y datblygiad, tebyg iawn i'r un gynhaliwyd yn sgil datblygiad Lon Bach Odro ym Methesda.

**Llochesi Bws Sherpa** – Nodwyd fod llochesi newydd wedi'i leoli ym Methesda – y Clerc i holi os oes modd gosod un tebyg ger cylchfan ystad ddiwydiannol Llandygai.

## 10. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr

**Canolfan Tregarth** – Adroddwyd y Cyng. Dafydd Owen am y gwelliannau yn y ganolfan. Nodwyd fod y Ganolfan wedi derbyn adroddiad effeithlonrwydd ynni, y Clerc i gynnwys yr eitem hwn ar yr agenda ym mis Medi.

**Ysgol Tregarth** – Nodwyd fod y Cyng. Sian Beidas a Dafydd Owen wedi mynychu cyfarfod llywodraethwyr yn ddiweddar. Nodwyd fod yr ysgol wedi derbyn adroddiad estyn canmoladwy ofnadwy, y Clerc i danfon llythyr i'w llongyfarch.

## 11. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

**11.1** Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Mehefin. Nodwyd fod y Clerc angen newid y mis o 'Mai' i 'Mehefin' ar yr adroddiad, yn dilyn yr addasiad yma, derbyniwyd yr adroddiad.

## 12. Taliadau

Dim.

## 13. Penderfyniadau Cynllunio

**C18/0767/25/LL**

Coed Wern, Glasinfryn  
Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety, adeilad derbynfa, a chreu 2 nodweddion dŵr.  
Ynghyd a ffurfio ffyrdd mynediad cysylltiedig a meysydd parcio, tirweddu a gwaith cysylltiedig eraill.

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C22/0336/16/MW**

Alfred Mcalpine Slate Products, Chwarel Penrhyn  
Cais ar gyfer estyniad i weithfeydd cloddio llechi

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C22/0327/16/AC**

Alfred Mcalpine Slate Products, Chwarel Penrhyn  
Cais o dan Adran 73 i amrywio amod 1 a 3 ar ganiatâd cynllunio C16/1164/16/MW (Cais o

dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i benderfynu ar amodau dan adolygiad cyfnodol) er mwyn ymestyn yr amser ar gyfer cloddio a gweithio deunydd hyd at 2035, ymestyn amser ar gyfer adfer y safle hyd at 2037 a diwygio cynlluniau er mwyn cynnwys estyniad i'r ardal cloddio  
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C22/0406/16/RA**

Tir ger Cae Gors, Tregarth  
Cais i ryddhau amod 9 (Cynllun Plannu Coed), 13 (Manylion o'r defnydd o'r iaith Gymraeg) ac 16 (Cynllun Gwelliannau Bioamrywiaeth) o ganiatâd cynllunio C21/0617/16/LL ar gyfer codi 12 tŷ fforddiadwy, mynedfa newydd ynghyd a gwaith cysylltiedig.  
**Penderfyniad:** Amodau wedi'i rhyddhau yn llawn.

**NP3/16/28B**

Tir ger Maes Parcio Ogwen, Nant Ffrancon  
Hysbysiad o flaen llaw o dan Rhan 24 o'r Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiadau Cyffredinol a Ganiateir) Gorchymyn 1995 i godi polyn 15m o uchder wedi'i gladio a pren a fyddai'n cefnogi 3 o antenau a 2 o antenau dysgl ynghyd a chypyrddau offer ar y ddaear a'r datblygiadau ategol  
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C22/0430/16/DT**

Arfon Lôn Y Grug, Mynydd Llandygai  
Dymchwel rhan o estyniadau presennol a codi estyniad deulawr ar gyfer ystafelloed byw, llofft a ystafell molchi ychwanegol  
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

#### **14. Ceisiadau Cynllunio**

Dim.

#### **15. Unrhyw fater brys arall**

Dim.